24 Heol y Gadeirlan / 24 Cathedral Road
Caerdydd / Cardiff
CF11 9LJ
Ffôn / Tel: 029 2032 0500
Ffacs / Fax: 029 2032 0600
Ffôn testun / Textphone: 029 2032 0660
post@archwilio.cymru / info@audit.wales
www.archwilio.cymru / www.audit.wales

Eifion Evans
Prif Weithredwr
Cyngor Sir Ceredigion
Penmorfa
Aberaeron
Ceredigion
SA46 0PA

**Cyfeirnod:** 3271A2022

**Dyddiad cyhoeddi:** Rhagfyr 2022

Annwyl Eifion

# Yr wybodaeth ddiweddaraf ar y Sefyllfa Ariannol o ran Sicrwydd ac Asesu Risg 2021–22

Yn dilyn ein llythyr diweddar yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar y cynnydd o ran Sicrwydd ac Asesu Risg 2021–22, dywedom y byddem yn rhoi sylwadau ar rai agweddau penodol ychwanegol ar ein gwaith sicrhau ac asesu risg a wnaed gennym. Mae'r llythyr yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar gynnydd sefyllfa ariannol y Cyngor ar gyfer 2021–22.

Gwnaed y gwaith hwn yn rhan o'n prosiect Sicrwydd ac Asesu Risg 2021–22 i helpu i gyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol[1].

Rydym yn cydnabod bod yr hinsawdd ariannol bresennol ac yn y dyfodol yn heriol ac yn hylifol ac felly mae'r sylwadau hyn yn rhoi sicrwydd ar bwynt mewn amser a'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd o ran risg ar sefyllfa ariannol y Cyngor ar gyfer 2021–22.

---

[1] Mae'r dyletswyddau hyn yn cynnwys o dan adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004). Gall hefyd lywio astudiaeth ar wella gwerth am arian o dan adran 41 o Ddeddf 2004, a/neu archwiliad a gynhelir gan yr Archwilydd Cyffredinol o dan adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

# Yr wybodaeth ddiweddaraf ar Sefyllfa Ariannol 2021–22

## Yr hyn a wnaed gennym

Gwnaethom ymgymryd ag asesiad o Sefyllfa Ariannol 2021–22 y Cyngor rhwng mis Medi a mis Tachwedd 2022. Casglwyd y dystiolaeth drwy gyfweliadau a thrwy adolygu dogfennau, gan gynnwys ystyried sefyllfa arian wrth gefn y Cyngor, cyflawni arbedion a pherfformiad arfaethedig o'u cymharu â'r gyllideb arfaethedig ar gyfer y flwyddyn. Er mai ar flwyddyn ariannol 2021–22 oedd pwyslais ein gwaith, pan fo hynny'n briodol, ystyriwyd gwybodaeth ariannol diweddarach hefyd pan fo hyn yn helpu i roi'r sefyllfa yn ei chyd-destun.

Hefyd, gwnaethom gyhoeddi Offeryn Data Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol ym mis Chwefror 2022 sy'n cynnwys amrywiaeth o ddata ariannol ar gyfer cynghorau, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub yng Nghymru.

## Yr hyn a ganfuwyd gennym

**Mae'r Cyngor yn sefydlog yn ariannol, a helpwyd yn ddiweddar gan gyllid ychwanegol oddi wrth Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae cyflawni arbedion arfaethedig cynaliadwy yn y dyfodol mewn hinsawdd ariannol sy'n gynyddol heriol yn risg ariannol sylweddol a pharhaus.**

## Strategaeth ariannol

Canfu ein gwaith blaenorol ar gynaliadwyedd ariannol yn y Cyngor, (Mehefin 2021), fod y Cyngor yn parhau i fod yn sefydlog yn ariannol ac roedd yn canolbwyntio ar heriau'r dyfodol. Mae ein hadroddiad cynaliadwyedd ariannol 2021 yn cynnwys cynnig am welliant, gan ddweud y dylai'r Cyngor: barhau i fonitro'r gorwariant sylweddol mewn gofal cymdeithasol; a sicrhau bod ei Brosiect Trawsnewid Gwasanaethau Cymdeithasol yn sbarduno gwelliant. Mae'r Cyngor yn parhau i fonitro ei wariant mewn gofal cymdeithasol ac, ar hyn o bryd, mae yn y broses o gasglu'r data i asesu'r gwelliannau a gyflawnir trwy ei Raglen Trawsnewid Gydol Oed a Llesiant Gofal Cymdeithasol.

O'n gwaith archwilio ehangach arall yn y Cyngor, (Adolygiadau Llamu Ymlaen ar Reoli'r Gweithlu a Rheoli Asedau (Medi 2022), nodwyd gennym y bydd parhau i gyflawni'r effeithlonrwydd drwy drawsnewid gwasanaethau cymdeithasol a'r costau hirdymor sylweddol wrth gynnal ei bortffolio asedau, yn parhau i olygu risgiau ariannol parhaus i'r Cyngor.

Ym mis Mawrth 2022, cyhoeddodd y Cyngor ei Strategaeth Ariannol Tymor Canolig ar gyfer 2022–23 i 2024–25. Mae hon yn amlinellu tybiaethau blynyddol dangosol am y gwariant a'r incwm a ragwelir yn ystod y cyfnod hwn. Mae hefyd yn rhagweld yr adnoddau tebygol a'r diffyg cyllid posibl a'r arbedion sydd eu hangen.

Dywed Strategaeth Ariannol Tymor Canolig mis Mawrth 2022 y Cyngor mai ei strategaeth ariannol yw parhau i reoli'r bwlch a ragwelir rhwng adnoddau tebygol a'r gofyniad cyllidebol er mwyn cyflawni sefyllfa gytbwys yn y gyllideb gan fodloni amcanion y Cyngor. Yn Strategaeth Ariannol Tymor Canolig mis Mawrth 2022 y Cyngor, noda'r Cyngor fod angen gwneud arbedion o £15 miliwn i gyflawni cyllideb gytbwys rhwng 2022–23 a 2024–25—gweler y Bwlch cyllid a'r Arbedion a ragwelir yn **Arddangosyn 1**.


Galluogodd arian ychwanegol gan Lywodraeth Cymru yn 2022–23 y Cyngor i ohirio'r arbedion gwreiddiol yr oedd yn ofynnol iddo eu gwneud yn 2022–23 am flwyddyn arall. Derbyniodd y Cyngor gynnydd o 8.6% (ar sail tebyg am debyg) gan Grant Cynnal Refeniw Llywodraeth Cymru a helpodd y Cyngor i leihau'r arbedion gwreiddiol gwerth £6 miliwn yr oedd eu hangen ar gyfer 2022–23, (fel y nodir yn Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2021–22 y Cyngor) i £1.3 miliwn. Fodd bynnag, ym mis Mawrth 2021, roedd y Cyngor wedi nodi bwlch cyllido tair blynedd dreigl gwerth £15 miliwn, a dyma oedd y sefyllfa o hyd ym mis Mawrth 2022, er bod angen yr arbedion cyffredinol flwyddyn yn hwyrach na'r bwriad gwreiddiol bellach.

Pryd y'i cyhoeddwyd ym mis Mawrth 2022, cyfeiriodd Strategaeth Ariannol Tymor Canolig y Cyngor at nifer o risgiau a meysydd ansicrwydd allweddol, megis yr hinsawdd economaidd ac effaith barhaus COVID-19 o ran costau uwch a llai o incwm oddi wrth ffioedd ac incwm codi tâl.

Ar gyfer 2021–22, £22.1 miliwn oedd cyllideb weithio rhaglen gyfalaf y Cyngor, a'i alldro terfynol oedd £17.5 miliwn. Ar gyfer 2022–23, roedd cyllideb weithio cyfalaf y Cyngor wedi mwy na dyblu i £41.4 miliwn, fodd bynnag, mae'r Cyngor wrthi'n diwygio hyn tuag i lawr.

**Arddangosyn 1: Ym mis Mawrth 2022, rhagwelodd Cyngor Sir Ceredigion fwlch cyllid tymor canolig o £15 miliwn rhwng 2022–2023 hyd 2024–25.**

Mae'r graff hwn yn dangos y bwlch/arbedion cyllid tymor canolig blynyddol sydd eu hangen a nodwyd gan y Cyngor ym mis Mawrth 2021 a mis Mawrth 2022.




**Cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy**

Nododd ein gwaith blaenorol ar Gynaliadwyedd Ariannol yn y Cyngor ym mis Mehefin 2021 fod y Cyngor wedi parhau â'i hanes o beidio â gwneud defnydd nas cynllunnir o gronfeydd wrth gefn i ariannu gwariant refeniw, a bu cynnydd mewn cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Bu twf o bron i £33 miliwn yng nghronfeydd defnyddiadwy y Cyngor rhwng 2019–20 a 2021–22, o £27.7 miliwn i £60.7 miliwn. Cyflawnwyd hyn trwy arbedion, tanwariant a chyllid ychwanegol oddi wrth Lywodraeth Cymru yn bennaf oherwydd pandemig COVID-19.

Mae gan y Cyngor Bolisi Cronfeydd Wrth Gefn ar waith ac, ym mis Mawrth 2022, nid oedd ganddo gynlluniau i ddefnyddio balansau wrth gefn cyffredinol i gyllido cyllidebau sylfaen refeniw heblaw am eitemau eithriadol ac eitemau blaenoriaeth untro y cytunwyd arnynt.

Roedd adroddiad Cabinet y Cyngor ym mis Medi 2022 yn cynnwys sawl maes effaith parhaus oherwydd pandemig COVID-19. O ganlyniad i hynny, mae eitemau gwariant a lefelau incwm is sy'n cael eu lliniaru dros dro yn ystod 2022–23 gan ddarpariaeth

cyllideb COVID-19 corfforaethol y Cyngor. Gwnaeth proses pennu cyllideb 2022–23 y Cyngor lwfans am gyllideb cymorth COVID-19 gwerth £2 miliwn, ac ariannwyd £1.25 miliwn ohono fel y cynlluniwyd o'i gronfeydd wrth gefn. Mae'r prif feysydd yr effeithir arnynt o hyd yn cynnwys staff llanw mewn ysgolion, newidiadau dros dro i'r briffordd a'i gartrefi gofal, ochr yn ochr â lefelau incwm is sydd i'w gweld mewn gwastraff masnach a'i Ganolfannau Llesiant.

Yn 2020–21, roedd cyfanswm cronfeydd defnyddiadwy y Cyngor yn 29.7% o gost net ei wasanaethau, sef y nawfed canran uchaf ymhlith holl gynghorau Cymru. Yn 2021–22, roedd hyn wedi codi i 38.6%.

**Arddangosyn 2: Nifer y cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy o'u cymharu â'r gyllideb flynyddol yng Nghyngor Sir Ceredigion**

Dengys yr arddangosyn hwn faint o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy oedd gan y Cyngor ar ddiwedd 2021–22 a'r pum mlynedd flaenorol fel cyfran o gost net y gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor.

| | 2016–17 | 2017–18 | 2018–19 | 2019–20 | 2020–21 | 2021–22 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cost Net y Gwasanaethau mewn £ miliynau[2] | £147.6 miliwn | £147.2 miliwn | £151.8 miliwn | £155.8 miliwn | £149.92 miliwn | £157.3 miliwn |
| Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy na ddiogelir gan y gyfraith mewn £ miliynau | £20.2 miliwn | £21.5 miliwn | £24.2 miliwn | £27.7 miliwn | £44.6 miliwn | £60.7 |

[2] Cost Net y Gwasanaethau Y gwerth a ddefnyddiwyd yw'r gost net a godwyd ar y gronfa gyffredinol am y gwasanaethau o'r Dadansoddiad Cyllid Gwariant, namyn cost unrhyw wasanaethau Cyfrif Refeniw Tai, gan ychwanegu praeseptau, ardollau a llog ar ddyledion.

| | 2016–17 | 2017–18 | 2018–19 | 2019–20 | 2020–21 | 2021–22 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy fel canran o gost net y gwasanaethau | 13.7% | 14.6% | 15.9% | 17.8% | 29.7% | 38.6% |
| Cymhariaeth â chynghorau eraill yng Nghymru | 15fed | 13eg | 12fed | 11eg | 9fed | Nid yw'r data ar gael |

**Cyflawni arbedion a pherfformiad o'u cymharu â'r gyllideb refeniw**

Nododd ein gwaith blaenorol ar Gynaliadwyedd Ariannol ym mis Mehefin 2021 fod gan y Cyngor hanes da o gyflawni ei dargedau arbedion, fodd bynnag, byddai cyflawni'r arbedion gofynnol yn fwy heriol wrth fynd ymlaen.

Ar gyfer 2021–22, £3 miliwn oedd amcangyfrif arbedion arfaethedig gwreiddiol y Cyngor. Fodd bynnag, ym mis Medi 2021, dywedodd y Cyngor y byddai angen cynyddu hynny i £3.4 miliwn, yn dilyn setliad ariannol is na'r disgwyl gan Lywodraeth Cymru. Mae strategaeth y Cyngor o gyflawni'r arbedion hyn yn canolbwyntio ar ei gwneud yn ofynnol i wasanaethau arbed 1% o'u cyllidebau (£1.25 miliwn) a tharged arbedion corfforaethol ar gyfer Grŵp Arwain y Cyngor ar y cyd o £2.1 miliwn. Ym mis Medi 2021, nododd adroddiad Cabinet y Cyngor fod 80% o arbedion gwasanaethau y Cyngor a 100% o'i darged arbedion corfforaethol eisoes wedi eu cyflawni neu ar y trywydd iawn, gan barhau i ddangos fod gan y Cyngor hanes da o gyflawni ei dargedau arbedion.

Ym mis Gorffennaf 2022, cyflwynodd adroddiad Cabinet y Cyngor sefyllfa terfynol Alldro Refeniw Rheolaethol 2021–22 a bod 'sefyllfa refeniw cyffredinol terfynol yn nodi tanwariant cyffredinol o £668,000. Bydd hyn yn cynnwys manteision y gwarged o ran casglu Treth y Cyngor a Grant Refeniw ychwanegol Llywodraeth Cymru (a dderbyniwyd o ganlyniad i Setliad Ariannol a ddiwygiwyd ar gyfer 2021/22 gan Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2022). Mae'r tanwariant yn is na'r hyn a ragwelwyd o ganlyniad i drosglwyddiadau i gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd. Bydd y gwarged cyffredinol yn golygu y bydd y Balansau Cyffredinol yn codi i £6.7m, sy'n cyfateb i 4.1% o Gyllideb 2022/23 (sef ychydig yn uwch na'r pwynt canol ar gyfer yr ystod targed rhwng 3% a 5%).'

Yn ein gwaith cynaliadwyedd ariannol blaenorol ym mis Mehefin 2021, gwnaethom amlygu'r gorwariant a ragwelir yng Ngwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor ar gyfer 2021–22. Ym mis Mawrth 2022, nododd Strategaeth Ariannol Tymor Canolig y

Cyngor arbedion arfaethedig sylweddol o £5.6 miliwn ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol rhwng 2022–23 a 2024–25, sydd dros draean cyfanswm yr arbedion sydd eu hangen ar y Cyngor ar gyfer y cyfnod hwn. Er bod y Cyngor wedi adrodd gorwariant bach gan y Gwasanaethau Cymdeithasol yn 2021–22, cyflawnwyd hyn trwy ddefnyddio bron i £2.5 miliwn o gyllid anrheolaidd Llywodraeth Cymru. Er bod y sefyllfa hon yn fwy cadarnhaol na'r hyn a ragwelwyd yn wreiddiol, mae'r Cyngor yn ymwybodol bod y targedau arbedion ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol yn risg ariannol barhaus ac felly dylent barhau i gael eu monitro'n ofalus.

**Pwysau ar Gyllidebau'r Dyfodol**

Nododd adroddiad Cabinet y Cyngor ym mis Medi 2022 ar gyllideb reolaethol y Cyngor yn 2022–23, sawl maes posibl a fydd yn cael effaith ar ei gyllid yn y dyfodol ac a oedd ar y pryd heb eu mesur. Roedd y rhain yn cynnwys effaith ariannol parhaus COVID-19 (er bod hyn yn cael ei liniaru dros dro ar gyfer 2022–23 gan y defnydd arfaethedig o gronfeydd wrth gefn), yr argyfwng costau byw ac effaith bosibl gwobrau cyflog cenedlaethol.

Bydd gwaith cynllunio ariannol tymor canolig yn parhau i ddibynnu ar ystod o ragdybiaethau, ac o'i gyplysu â'r dirwedd economaidd-gymdeithasol sy'n newid yn y cyfnod hwn o ansicrwydd economaidd sylweddol, bydd cynllunio ar gyfer cadernid ariannol a rowndiau cyllideb y dyfodol yn parhau i fod yn heriol i gynghorau.

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i chi a'ch swyddogion am y gefnogaeth barhaus a ddarparwyd gennych i'n galluogi i gyflawni ein gwaith.

Diolch yn fawr.

Yn gywir,

Tîm Ymgysylltu Archwilio Cymru